ATODLEN 1

**Diwygio Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Atgyfeiriadau ac Apelau) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2003**

**4.** Yn rheoliad 7 (sylwadau), ychwaneger ar y diwedd—

"(9) Pan fydd parti y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo yn dewis defnyddio cyfrwng cyfathrebu electronig i gyflwyno, anfon, copïo neu anfon copi o unrhyw sylwadau, holiadur neu ddogfen arall, bydd y rheoliad hwn yn effeithiol yn ddarostyngedig i'r addasiadau a ganlyn—

(a) os yr awdurdod cynllunio lleol yw'r parti sy'n dewis gwneud hynny, yn lle'r geiriau "2 gopi o'r" ym mharagraff (3), rhodder y gair "y", a dileer y geiriau "2 gopi o" ym mharagraff (7);

(b) os yr apelydd yw'r parti sy'n dewis gwneud hynny, yn lle'r geiriau "2 gopi o'r" ym mharagraff (4), rhodder y gair "y", a dileer y geiriau "2 gopi o" ym mharagraff (7).".